

# Sul y Genhadaeth

## Darllen: Luc 4: 16–19

Rhoddai Iesu le allweddol i'r Ysgrythur, fel ag y gwnaeth yma ar ddechrau ei weinidogaeth yng Ngalailea. Darllenodd o broffwydoliaeth Eiseia (61:1–2; 58:6). Mae'n ddiddorol sylwi ei fod wedi defnyddio'r broffwydoliaeth ar gyfer pwrpas ei genhadaeth. Ni chafodd ei glymu na'i gaethiwo i lythyren y Gair, yn union fel y gwrthododd gael ei glymu gan y Gyfraith na'r Saboth. I Iesu, cyfrwng byw yn llaw'r Ysbryd Glân oedd yr Ysgrythurau, a llwyddodd i rannu'r newyddion da i'w bobl yn eu bywydau bob dydd ac yn eu cynefin naturiol. Felly, beth oedd y newyddion da? Dod â newyddion da i dldion wnaeth Iesu, sef nad ewyllys Duw ar eu cyfer oedd tlodi. Nid pobl wedi eu tynghedu i fyw bywyd o angen a thrueni oeddynt. Dan ddylanwad Duw, gallai pethau fod yn wahanol. Gan Iesu'n unig oedd y gallu i drawsnewid calonnau hunanol fel eu bod yn rhannu â'r tldion ac yn troi'r byd wyneb i waered. Mae Iesu'n mynd i mewn i dŷ Saceus ac mae'r gŵr hunanol, twyllodrus hwnnw'n cael ei weddnewid, 'Dyma hanner fy eiddo, syr, yn rhodd i'r tldion; os mynnais arian ar gam gan neb, fe'i talaf yn ôl bedair gwaith' (Luc 19:8).

Nod ei genhadaeth oedd trawsnewid yr unigolyn, ac yn sgil hyn y gymdeithas gyfan. A chyhoeddodd hynny yn y geiriau, 'i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd'. Yn ôl Llyfr Lefiticus, bob hanner can mlynedd roedd caethion i gael eu rhyddhau, eiddo i gael ei adfer, dyledion i gael eu dileu a'r tir i gael gorffwys, 'Cysegra'r hanner canfed flwyddyn, a chyhoedda ryddid trwy'r wlad i'r holl drigolion' (Lefiticus 25:10). Roedd hyn yn effeithio ar holl amrediad bywyd yr unigolyn yn ei holl gyflawnder. Mewn gair, gellir crynhoi'r neges fel hyn: adfer bywyd y ddynoliaeth i gyd, a gwneud y bydysawd yn atebol i Dduw. Dim llai na chwyldro! A phrofwyd y chwyldro hwn ym mywydau pobl yn ystod gweinidogaeth Iesu am ei fod wedi defnyddio'r Ysgrythurau ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Rhoddodd eiriau'r Ysgrythurau ar waith. Byw'r Efengyl wnaeth Iesu, a gwneud hynny trwy weithredu a byw ymhlith ei bobl. Nid

cyhoeddi'r newyddion da yn unig a wnaeth Iesu, ond gweithredu'r newyddion da.

Beth fu'r adwaith? Heb os, cafodd y neges ei chymeradwyo ar y cychwyn, ond buan iawn y gwelwyd gelyniaeth pan ddeallai pobl nad oedd y fendith wedi ei chyfyngu i'w cenedl hwy. Ceisiodd Iesu ddangos bod cymeriadau allweddol yr Ysgrythurau wedi ceisio dwyn bendith i rai o'r tu allan i'r genedl. Llanwyd y gwrandawyr â dicter, a bu'n rhaid iddo ef ymadael â'r lle am ei fywyd. Roedd un agwedd o'i neges yn gwbl dderbyniol, ond roedd ehangder ei neges wedi'u llorio'n llwyr. Neges i'r byd cyfan, neges i bawb, oedd neges a chenhadaeth Iesu.

### **Myfyrdod pellach:**

Ydi'n gweledigaeth ni o genhadaeth yn rhy gyfyng a phlwyfol?

Sut mae dod i'r afael â'r weledigaeth unllygeidiog hon?